



RYDYM YN DARGANFOD,
RYDYM YN TYFU
WE DISCOVER, WE GROW

Girlguiding

Cymru

Sut y gall eich ysgol gymryd rhan mewn

Girlguiding

Rhowch y cyfle i'ch merched gael profiadau
gwyb a chyrraedd eu llawn botensial

Rhyddhewch botensial eich merched,

O roi cynnig ar weithgareddau newydd anhygoel ac anturiaethau i adeiladu hyder corfforol, o ddysgu arwain i wneud ffrindiau newydd, mae Girlguiding yn agor byd o gyfleoedd i ferched – ac yn datblygu sgiliau amhrisiadwy ar gyfer ysgol a thu hwnt.



Beth mae Girlguiding yn ei olygu?

Efallai fod girlguiding dros 100 oed, ond mae'r hyn a gynigiwn ni yn gwbl gyfoes. Heddiw mae ein merched yn dal i wersylla a choginio, ond maen nhw hefyd yn ymgyrchu, beicio pedair olwyn, herio stereoteipiau rhyw, rhoi tro ar arbrofion gwyddonol, ysgrifennu dramâu, dysgu sgiliau syrcau... mae'r rhestr yn ddiwedd.

Yn cael eu harwain gan wirfoddolwyr hyfforddedig, mae grwpiau fel arfer yn cyfarfod unwaith yr wythnos ond mae'r uned unigol yn rhydd i benderfynu beth sydd orau iddyn nhw. Mae merched yn gweithio at fathodynau mewn ystod eang o feysydd, mewn timau ac ar eu liwt eu hunain; ac mae yna weithgareddau drwy'r flwyddyn gron.

Ar gyfer merched yn unig ydym ni, ac mae croeso i bob merch. Rainbows yw merched oedran 5-7, Brownies yw'r rhai 7-10 oed, a Guides yw'r rhai 10-14 oed. Mae gennym hefyd Adran Hŷn ar gyfer y rhai 14-26 oed.

Sut y gall eich ysgol elwa oddi wrth Girlguiding?

Nid eich merched yn unig fydd yn elwa oddi wrth Girlguiding- bydd eich ysgol hefyd yn elwa llawer o drefnu grŵp neu ein helpu ni i hyrwyddo Girlguiding.

Cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae Girlguiding yn cyfoethogi ac yn datblygu gwaith grwpiau bach, cefnogaeth cyfoed i gyfoed a dysgu seiliedig ar ymholi, gan arwain at ganlyniadau gwell i'ch disgyblion. Ar gyfer merched iau, mae Girlguiding yn fodd i hybu annibyniaeth, cyfeillgarwch, darganfod yr hunan a mwy.

Gwelliannau ysgol gyfan. Gall Girlguiding wneud merched yn hapusach, yn fwy hyderus a'u galluogi i ganolbwyntio'n well. Gall hyn arwain at ymddygiad, presenoldeb, ymrwymiad ac agweddau gwell gan ddisgyblion ar bob lefel.

Codi proffil eich ysgol. Mae gallu ychwanegu Girlguiding at eich gweithgareddau allgyrsiol yn beth gwyach. Gallwch ddefnyddio gweithgareddau a digwyddiadau Girlguiding yn eich marchnata, gan wneud argraff ar ddisgyblion, rhieni, arolygwyr ac awdurdodau addysg.

Gwella cysylltiadau â'r gymuned. Rhan allweddol o Girlguiding yw gweithio yn y gymuned, a rhoi cyfle i'ch ysgol gryfhau cysylltiadau a rhannu gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau gyda grwpiau ac ysgolion eraill.

“Diolch i Rainbows, mae hi'n fwy hyderus, mae hi'n siarad yn glir am ei theimladau ac yn gallu mynegi ei hun mewn ffordd bositif iawn”
Rhiant i Rainbow

helpwch eich ysgol i ffynnu

Ym mha ffordd mae Gilrguiding o fudd i ferched?

Bydd Girlguiding yn rhoi i'ch merched ystod eang iawn o brofiadau, ac y n datblygu sgiliau a rhinweddau y byddan nhw'n eu defnyddio tra'u bod yn yr ysgol a thrwy gydol eu bywydau.

Mae Girlguiding yn rhoi i ferched....

Ysbaid i archwilio, breuddwydio a chyflawni. Mae Girlguiding yn rhoi hyder, brwdfrydedd ac ysbaid unigryw i ferched i ddarganfod pwy o ddifri ydyn nhw – ac yn dangos iddyn nhw nad oes pen draw i'w gallu i wireddu uchelgais.

Cyfleoedd newydd, cyffrous. Mae Girlguiding yn datblygu ysbrydion anturus! P'un ai eu noson gyntaf i ffwrdd o gartref, y tro cyntaf iddyn nhw roi cyflwyniad o flaen grŵp neu'r tro cyntaf iddyn nhw gyfarfod â phobl ifanc o wlad arall, yr hyn a olyga Girlguiding yn gyfangwbl yw cofleidio'r newydd ac ymestyn gorwelion.

Sgiliau a gwybodaeth. Mae girlguiding yn helpu merched i ddatblygu cymaint o sgiliau bywyd pwysig i ychwanegu at yr hyn a ddysgwch iddyn nhw yn yr ystafell ddosbarth. Arweinyddiaeth a gwaith tîm yw'r prif rai, gyda menter ac annibyniaeth yn uchel ar yr agenda hefyd.

Cyfle i newid y byd. Adeiladir gweithredu yn y gymuned i mewn i'n rhaglen, grym pwerus er daioni - cefnogwn elusennau yn ein cymuned leol yn ogystal â gweithredu ar faterion sy'n effeithio ar ein cymuned ehangach yn fyd-eang.

Nerth a hyder. Mae Girlguiding yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion mawr sy'n wynebu merched, gan eu helpu i ddatblygu'n fenywod ifanc, cryf a hyderus. O berthnasau iachus i iechyd meddwl a hyder corfforol, rydym ni'n addysgu, galluogi ac ysbrydoli.



'Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau all-gyrsiol ac yn cymryd rhan gweithredol mewn gweithgareddau cymunedol a chodi arian i elusennau.'

'Mae disgyblion yn elwa o gysylltiadau gwerthfawr gyda'r gymuned leol i gyfoethogi'r cwricwlwm ffurfiol yn ogystal â'r ddarpariaeth all-gwricwlaidd.'

Adroddiad Blynyddol Estyn 2015-16



Oeddech chi'n gwybod y gall Rainbows a Brownies...

...wneud prosiectau ac arbrofion tuag at Fathodynau Ymchwilydd Gwyddonol, bathodynau Darllenwr Llyfrau, bathodynau Crensiwr Rhifau a bathodynau eraill sy'n rhoi'r cyfle iddyn nhw ddysgu am bopeth o adeiladu i archwilio'r gofod!

Mae angen eich ysgol ar Girlguiding

Byddem wrth ein bodd yn gwneud ein rhaglenni anhygoel ar gael i'r merched yn eich ysgol chi.



Gallech:

- Drefnu gwasanaeth neu sesiwn blasu gyda merched o unedau lleol i ysbrydoli eich disgyblion
- Adael i ni ymestyn allan i rieni drwy ddiwyddiadau ysgol a'r deunydd a anfonir adref
- Ddarparu lleoliad neu gefnogaeth logistaidd arall ar gyfer gweithgareddau grŵp

Gallwn gynnig...

- Cyfleoedd i oedolion, yn cynnwys hyfforddiant, cymwysterau a chefnogaeth gan wirfoddolwyr lleol
- Talu am y defnydd o gyfleusterau
- Ymgysylltu â'r gymuned leol

Diddordeb gennych?

Cysylltwch â'ch cyswllt lleol isod:

Darganfyddwch fwy ar www.girlguiding.org.uk

